



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TYDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

PROFFEIL LLEOLIAD PROFIAD GWAITH

Adran: Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol

Lleoliad: Canolfan Ddinesig, Merthyr Tudful

Gwybodaeth am yr Adran

Cefnogi'r Cyngor er mwyn cynnal ei wasanaethau ar y lefel y cytunwyd arni. Mae angen i'r Adran Adnoddau Dynol fod yn effeithiol a chydnerth. Mae'n barhaol yn asesu anghenion y Cyngor ac yn ymateb yn gyflym i gefnogi staff a rheolwyr.

Mae nifer o dimau oddi fewn i'r adran sy'n cynnwys:

- **Y gyflogres**
- **Iechyd a Diogelwch**
- **Gweinyddiaeth AD** gan gynnwys recriwtio rholiau mewnol ac allanol
- **Gweithrediadau AD** sy'n cefnogi materion sy'n ymwneud â rheolwyr a staff
- **Datblygiad Sefydliadol** sy'n edrych ar raglenni ataliol hirdymor i gyflogeion. Mae Datblygiad Sefydliadol yn rhoi **pobl yn ganolog**. Mae'n ceisio gwella perfformiad y sefydliad drwy greu amgylchedd gwaith sy'n galluogi pobl i ffynnu a chael ymdeimlad o werth yn eu gwaith

Mae blaenoriaethu Datblygiad Sefydliadol yn gymorth i:

Greu sefydliad sy'n gweithio'n effeithiol yn awr ac yn y dyfodol;

- Darparu systemau cost effeithlon;
- Gwella bodlonrwydd cwsmeriaid; a
- Grymuso arweinwyr

Crynodeb o'r Rhaglen Profiad Gwaith a Thasgau Posib:

- Trosolwg o Adran y gyflogres a'r mathau o geisiadau y mae'r tîm yn delio â hwy.
- Trosolwg o weinyddiaeth AD a phrosesau recriwtio.
- Trosolwg o'r tîm Datblygiad Sefydliadol a dealltwriaeth o'r hyn y mae "Datblygiad Sefydliadol" yn ei olygu
- Deall y mathau o brosiectau a mentrau sy'n cynorthwyo CBSMT i gyflawni ei weledigaeth a'i amcanion.
- Trosolwg o'r tîm Gweithrediadau AD a'r modd y maent yn cefnogi rheolwyr a staff.

Meini prawf hanfodol

- Gweithiwr tîm da
- Cyfrinachedd
- Datrys Problemau
- Y gallu i ddylanwadu a chyfathrebu'n eglur.